**Sgript i'w ddarllen gan staff addysgu cyn lenwi'r Daflen Wybodaeth Disgyblion a'r Ffurflen Gydsynio.**

Mae gennych gyfle i gymryd rhan mewn arbrawf. Pwrpas yr arbrawf yw gweld a allwn ni ddatblygu mwy o adnoddau i helpu disgyblion i ddysgu darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn well. Dyma daflen wybodaeth sy'n esbonio'r prosiect, ac rwy'n mynd i ddangos fideo i chi sydd hefyd yn esbonio'r un pethau.

Ar ôl i ni edrych drwy'r wybodaeth am y prosiect, os ydych yn cytuno i gymryd rhan, bydd angen i chi roi cylch o gwmpas y 'bawd i fyny' yn y blychau wrth ymyl y brawddegau. Nid oes rhaid i chi gymryd rhan os nad ydych yn dymuno. Gallwch hefyd newid eich meddwl am gymryd rhan ar unrhyw adeg.

Os ydych chi'n hapus i gymryd rhan yn yr arbrawf yna y cam nesaf fydd rhoi cynnig ar rai profion newydd gyda mi. Mae'r profion yn ymwneud ag ysgrifennu, darllen a gwrando ond dim ond rhoi cynnig arnyn nhw bydd gofyn i chi wneud - does dim ots faint rydych chi'n ei gael yn gywir neu'n anghywir. Gallwch stopio ar unrhyw adeg os ydych wedi cael digon ac nid oes rhaid i ni wneud yr holl brofion ar yr un diwrnod.

Os ydych chi'n hapus i wneud y tasgau, rhowch gylch o gwmpas y 'bawd i fyny'. Os nad ydych am wneud y tasgau, cylchwch y 'bawd i lawr'.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch i mi.





**Rhif Cyfeirnod: CSESP -Sta-55**
**Teitl y Prosiect:** *Creu asesiad diagnostig o lythrennedd yn y Gymraeg i ddysgwyr 11.0-16.11 oed*